# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

### Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg: 08/10/2025

### Cyflwyniad

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanddarpar. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru, drwy sicrhau ymwelwyr bod llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a darparu trefn glir i ddarparwyr.

Bydd y cynllun trwyddedu yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Bydd y Bil yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Canlyniad eilaidd y Bil hwn fydd sicrhau mwy o gysondeb rhwng y drefn reoleiddio llety ymwelwyr hunanddarpar â threfn reoleiddio'r sector rhentu preifat, gan gyflwyno safonau cyson ar gyfer y llety hwnnw, a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hynny.

Mae'r Bil hefyd yn creu Cod Cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth ym maes twristiaeth.

Cymraeg 2050 yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Ei nod hefyd yw cynyddu cyfran y rhai sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, o 10% (yn 2013–15) i 20% erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i anelu at wyrdroi'r gostyngiad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros yr ugeinfed ganrif. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ei pholisïau ar y Gymraeg a'r rhai sy'n ei siarad. Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mewn ymateb i argymhellion Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg, nododd Llywodraeth Cymru pa mor bwysig yw'r sector twristiaeth a'r economi ymwelwyr i'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r economi sylfaenol.

**Yr economi ymwelwyr yng Nghymru: ffeithiau allweddol**

Mae twristiaeth yn chwarae rôl hollbwysig yn economi Cymru. Roedd diwydiannau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cyfrif am 11.8% o gyflogaeth (159,000 o swyddi) a 5.1% o Werth Ychwanegol Gros (£3.8 biliwn) yng Nghymru yn 2022.

Cafwyd mwy na 69 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2023, gan gynrychioli gwariant cyfunol o fwy na £4.95 biliwn yn economi Cymru. Roedd 8.65 miliwn o'r ymweliadau hyn yn arosiadau dros nos, sy'n cynrychioli gwariant o fwy na £2 biliwn.

Ein huchelgais yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru mewn ffordd sy'n cefnogi cymunedau lleol ffyniannus ac sy'n gynaliadwy i'r amgylchedd a phobl Cymru.

Mae ymweliadau â Chymru, a'u heffeithiau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig, wedi'u rhannu rhwng rhanbarthau Cymru. Fodd bynnag, gall maint diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth amrywio'n fawr rhwng ardaloedd lleol, gan gyfrif am hyd at 20% o gyflogaeth yn Sir Benfro ac ar Ynys Môn, ond dim ond 7.5% yn Wrecsam yn 2022.

Hyd yn oed ar lefel awdurdod lleol, nid yw'r effeithiau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae eiddo sydd wedi'u rhestru ar Airbnb, er enghraifft, wedi'u crynhoi mewn ardaloedd mynyddig ac arfordirol ac mewn rhai awdurdodau lleol mae eiddo rhestredig wedi'u crynhoi mewn nifer bach o ardaloedd. Gall y crynhoad hwn o lety gwyliau mewn cymunedau penodol ddod â manteision, megis y potensial i gynhyrchu incwm a chyflogaeth ychwanegol mewn diwydiannau cysylltiedig, yn ogystal ag achosi pryderon megis lleihau nifer y tai sydd ar gael, achosi anawsterau o ran parcio, a chyfrannu at sbwriel a llygredd, fel y nodwyd gan astudiaeth o agweddau at drwyddedu llety ymwelwyr yn 2023.

Mae darpariaeth llety ymwelwyr wedi newid yn sylweddol ers i Airbnb ehangu i'r DU yn 2009 ac ers i wefannau eraill megis Booking.com, VRBO ac Expedia ymuno â'r un farchnad. Erbyn mis Mai 2022 roedd 21,718 o eiddo yng Nghymru wedi'u rhestru ar Airbnb yn unig ac yn rhifyn mis Mai 2023 o'n Baromedr Twristiaeth, roedd 75% o'r darparwyr llety a gyfwelwyd yn hyrwyddo eu llety gan ddefnyddio o leiaf un platfform ar-lein. Nododd 49% o'r darparwyr llety hunanddarpar a gyfwelwyd eu bod yn defnyddio Airbnb. Mae'r rhesymau pam mae pobl yn dewis gosod eiddo gan ddefnyddio'r platfformau hyn yn amrywio'n fawr. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'r graddau y mae platfformau archebu ar-lein wedi agor y farchnad llety ymwelwyr i amrywiaeth o ddarparwyr newydd, rhai sy'n gweithredu'n fasnachol a rhai sy'n gweithredu'n anffurfiol iawn neu'n achlysurol.

## Y Gymraeg a'r sector twristiaeth

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o wead cymdeithasol sawl rhan o Gymru. Ers 2019, mae rhaglen ARFOR wedi bod yn cefnogi llawer o'r cymunedau y cyfeirir atynt fel cadarnleoedd y Gymraeg (Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin).

Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod o Gyfrifiad 2021. O'r rhai 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru ac yn gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd, roedd 14% yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, yng nghymunedau'r cadarnleoedd, cododd y ffigur hwn i bron i 44% (Gwynedd 59%; Ynys Môn 51%; Ceredigion 39%; Sir Gaerfyrddin 33%).
Gofynnodd cam mis Chwefror 2024 o'r Baromedr Twristiaeth gwestiynau i fusnesau twristiaeth yng Nghymru am y defnydd o'r Gymraeg. O'r 900 o fusnesau a arolygwyd roedd gan 40% o leiaf un person a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y gwaith. Mae'r gyfran hon yn llawer uwch yn y Gogledd (60%) a'r Canolbarth (40%) nag yn y De-orllewin (26%) a'r De-ddwyrain (21%).

O ran siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, mae gan 66% o fusnesau yn y Gogledd o leiaf un person sy'n gwneud hynny, o'i gymharu â 54% yn y Canolbarth, a 46% yn y De-orllewin a'r De-ddwyrain.

## A yw’r cynnig yn cysylltu’n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r Rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026?

Un o'n blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr yw tynnu sylw at natur unigryw ein diwylliant a'r Gymraeg. Rydym am i ymwelwyr deimlo hyn, ac i ddiwylliant Cymru a'r iaith gyfoethogi eu profiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr a'r manteision y mae hynny'n ei gynnig.

Mae twristiaeth, diwylliant ac iaith wedi'u cydgysylltu'n agos, ond, mae'n rhaid i hynny olygu cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am reoli'r effaith y mae twristiaeth yn ei chael ar ein hamgylchedd a'n cymunedau lleol. Mewn ymdrech i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i drwyddedu llety gwyliau. Bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd i ymwelwyr, cymunedau lleol a llunwyr polisi bod llety yng Nghymru yn bodloni'r safonau gofynnol.

Mae’r sector twristiaeth yn darparu’r llety, y cyfleusterau a’r seilwaith sy’n galluogi pobl, yn enwedig pobl ifanc, i weithio a meithrin sgiliau gwerthfawr yn eu cymunedau lleol. Mae twristiaeth hefyd yn darparu cyfleoedd i ymwelwyr ddysgu am ein treftadaeth, ein diwylliant a'n hiaith Gymraeg unigryw, a chael mynediad atynt a'u mwynhau.

**Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut fyddwch chi'n mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.**

Mae swyddogion wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol proses ddatblygu'r ddeddfwriaeth i helpu i lywio dyluniad a chwmpas y cynllun trwyddedu. Oherwydd natur y cynllun, ni ddisgwylir iddo gael effaith, y naill ffordd neu'r llall, ar y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'n bosibl bod tystiolaeth i ddangos bod twristiaeth yn gyffredinol yn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg. Yn 2001, ysgrifennodd Dr Dylan Phillips a Dr Catrin Thomas am effeithiau twristiaeth ar y Gymraeg yng Ngogledd-orllewin Cymru. Amlinellwyd sut mae'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw wedi cael ei heffeithio, yn enwedig mewn ardaloedd twristaidd poblogaidd lle mae lefelau uchel o fewnfudo wedi digwydd yn sgil cyswllt uniongyrchol â'r diwydiant twristiaeth. Mae'n nodi effaith sylweddol ar nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.

Mae erthygl fwy diweddar gan Dr Dyfan Powell yn trafod effaith twristiaeth ar yr iaith yng Ngwynedd. Mae'r erthygl yn awgrymu perthynas gadarnhaol rhwng cyflogaeth yn y sector twristiaeth a thwf a chynaliadwyedd yr iaith yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, daeth yr erthygl i'r casgliad bod angen rhagor o ymchwil i wella ein dealltwriaeth o'r berthynas hon.

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Mae'n annhebygol y bydd y polisi hwn yn cael effaith uniongyrchol ar addysg Gymraeg neu ar ddysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran (gan gynnwys oedolion). Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r cynllun i godi proffil y Gymraeg drwy addysg a hyfforddiant i ddarparwyr llety ymwelwyr.

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)**

Mae'n annhebygol y bydd y polisi hwn yn cael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd a llywodraeth leol.

Fodd bynnag, mae angen i ni gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig ag argaeledd tai mewn rhai cymunedau gwledig, o ran cyflenwad a fforddiadwyedd cartrefi i bobl leol. Er nad yw'r cynllun trwyddedu yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflenwad neu fforddiadwyedd cartrefi, mae llawer o ardaloedd gwledig wedi gweld twf o ran perchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau. Yn ei adroddiad Ail Gartrefi - Datblygu polisïau newydd yng Nghymru, mae Dr Simon Brooks yn awgrymu mai un o anfanteision hyn yw prinder tai, sydd yn ei dro yn creu bygythiad i'r Gymraeg gan fod pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad o'r farchnad dai leol a'u heithrio ohoni. Gwnaeth ymchwil a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Caerdydd yn 2020 argymell trwyddedu fel un o'r camau y dylid eu cymryd i helpu i ddeall y tueddiadau a rheoli'r effaith hon a sicrhau pan fo tai yn cael eu defnyddio fel llety

ymwelwyr, eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Caiff hyn yn cael ei archwilio ymhellach yn yr asesiad effaith prawfesur gwledig.

**Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?**

Fel rhan o waith dylunio a chreu'r cynllun trwyddedu, bydd y Gymraeg yn ganolog i broses ddatblygu'r awdurdod trwyddedu. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cyflwyno cyfle i gynyddu, neu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, gellid defnyddio unrhyw hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr fel modd o gyflwyno'r iaith i fwy o bobl. Bydd unrhyw hyfforddiant o'r fath ar gael yn ddwyieithog.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am ddatblygu'r systemau a'r cynnwys yn y ddwy iaith a gweithio gyda defnyddwyr i sicrhau bod y gwasanaethau yn addas i'r diben. Ni fydd unrhyw debygolrwydd y bydd gweithredwyr lleol llety ymwelwyr dan anfantais drwy beidio â gallu cael mynediad i'r system yn eu dewis iaith. Bydd y gwasanaethau i gwsmeriaid megis swyddogaethau canolfan alwadau, gohebiaeth, canllawiau a digwyddiadau ar gael yn ddwyieithog er mwyn caniatáu i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau yn eu dewis iaith. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu hyrwyddo'r holl wasanaethau a fydd ar gael yn ddwyieithog.

**Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Mae'r ymchwil gyfredol sy'n ymwneud ag effaith twristiaeth ar y Gymraeg yn brin ac mae tystiolaeth empirig yn gyfyngedig. Roedd yr ymgynghoriad r y cynllun, yn ceisio barn ar effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Daeth 1,595 o ymatebion i law, er bod y rhain yn darparu ychydig o dystiolaeth ffeithiol neu ddim tystiolaeth ffeithiol ar y pwnc hwn. Mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi'r manylion, ond yn gyffredinol roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na fyddai cynllun trwyddedu yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Ymhlith y rhai a soniodd am effeithiau negyddol, y thema fwyaf cyffredin oedd effeithiau andwyol ar gymunedau a busnesau bach yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r materion hyn yn credu bod busnesau a chymunedau Cymru yn dibynnu ar y sector twristiaeth, a fyddai'n cael ei effeithio'n andwyol gan y cynllun. Ymhlith y rhai a nododd effeithiau cadarnhaol, y thema fwyaf cyffredin oedd effaith gadarnhaol ar y stoc dai, oherwydd y byddai awdurdodau lleol yn gallu cydbwyso llety preswylwyr ac ymwelwyr yn well.

**Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Mae'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) (y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru)) yn darparu cyswllt anuniongyrchol rhwng y cynigion a nodir yn y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Bil') a Cymraeg 2050. Bydd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll)

etc. (Cymru) yn cynnwys yr holl lety gwyliau sy'n gweithredu yng Nghymru. Bydd yr ystadegau a gasglwyd yn eu tro yn rhoi darlun clir o bwy sy'n gweithredu, a lle maent wedi'u lleoli. Bydd y data hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn ehangach i ddeall natur y diwydiant yn well mewn ardaloedd daearyddol allweddol, a llywio polisïau yn y dyfodol, gan gynnwys polisïau sy'n berthnasol i'r Gymraeg.

## Casgliadau

Nod Llywodraeth Cymru yw cydbwyso buddiannau ymwelwyr, preswylwyr a busnesau a chefnogi twristiaeth gynaliadwy ac ymreolaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol drwy ddefnyddio dull gweithredu gofalus ar gyfer sefydlu'r cynllun trwyddedu a bydd yn monitro ei effaith dros amser. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall unrhyw effeithiau posibl.

## Monitro a gwerthuso

Bydd effaith y Bil hwn yn cael ei adolygu fel y nodir ym Mhennod 11 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.